



Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Tachwedd 2016

Annwyl Simon

BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)

Rwyf wedi bod yn dilyn gyda diddordeb y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid a phrif feysydd y drafodaeth ynglŷn â'r Bil yn ystod cam cyntaf y broses graffu. Fel y gwyddoch, rwy'n croesawu'n benodol y drafodaeth am sut y caiff y Bil ei roi ar waith yn ymarferol, ac rwy'n awyddus i barhau i helpu'r Pwyllgor a rhanddeiliaid gan gynnig unrhyw wybodaeth atodol a fyddai o gymorth.

Fe wyddoch fod rhai o'r meysydd y mae rhanddeiliaid wedi holi a chodi pwyntiau yn eu cylch yn berthnasol i agweddau technegol a chymhleth y Bil. Yng ngoleuni hyn, rwyf wedi cynnwys rhagor o fanylion am y cwestiynau technegol a ganlyn gan obeithio y bydd hyn yn helpu'r Pwyllgor i'w deall:

- a) Pam mae angen rheol dargeddedig yn erbyn osgoi trethi (TAAR) sy'n ymwneud â rhyddhad a'r rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi (GAAR);
- b) Pam mae'r TAAR yn berthnasol i drethi sydd heb eu datganoli, a'r GAAR ond yn berthnasol i drethi sydd wedi'u datganoli;
- c) Pa drefniadau sy'n dod o dan y GAAR; gan gynnwys ystyr 'mantais drethiannol', 'trefniadau i osgoi trethi' ac 'artiffisial';
- ch) Pam y defnyddir y gair artiffisial ("artificial") yn hytrach na chamddefnyddiol ("abusive");
- d) A fydd GAAR Cymru yn ehangach na GAAR y Deyrnas Unedig; a

dd) Sut y gwnaiff Awdurdod Cyllid Cymru wrthweithio mantais?

Rwyf hefyd wedi amgáu Atodiad 1 sy'n cynnwys detholiad o rywfaint o'r gyfraith achos berthnasol, gan obeithio y bydd hynny o help.

Byddai fy swyddogion yn fwy na pharod i gynnig rhagor o bapurau briffio technegol pe bai hynny o help i'r Pwyllgor ddeall rhai o agweddau mwy cymhleth a heriol y Bil.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'ch Pwyllgor. Rwy'n awyddus i helpu'r Pwyllgor os bydd unrhyw beth arall yn codi.

Yn gywir



Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Pam mae angen TAAR rhyddhad a'r GAAR?

1. Bydd rheolau targededig yn erbyn osgoi trethi yn dal i chwarae rhan bwysig yn y fframwaith ehangach a ddefnyddir i fynd i'r afael ag osgoi trethi datganoledig. Mae nifer o reolau wedi'u targedu wedi'u cynnwys yn y Bil, ac maent yn rhoi sicrwydd i drethdalwyr nad oes modd i'r cynlluniau osgoi trethi presennol weithredu o fewn system y Dreth Trafodiadau Tir.
2. Nid yw Llywodraeth Cymru yn diystyru'r posibilrwydd o gyflwyno rhagor o reolau targededig yn erbyn osgoi trethi, os bydd yn gweld bod cynlluniau osgoi trethi ar waith y mae angen rhoi terfyn arnynt. Mae'r GAAR yn ategu hyn drwy ddarparu rheol gyffredinol sy'n galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i weithredu lle nad fydd y rheolau sydd wedi'u targedu ar waith, neu lle bydd trethdalwr yn dadlau ei fod wedi dod o hyd i ffordd o ochrgamu'r TAAR.
3. Bwriad y rheol dargeddedig yn erbyn osgoi trethi yn adran 31 o'r Bil ("y TAAR rhyddhad") yw atal cynlluniau osgoi sy'n cynnwys hawlio un rhyddhad neu ragor. Er y byddai gweithgarwch osgoi sy'n dod o dan y TAAR rhyddhad hefyd yn dod o dan y GAAR, bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn defnyddio rheolau wedi'u targedu cyn defnyddio'r GAAR.

Pam mae'r TAAR yn berthnasol i drethi sydd heb eu datganoli, a'r GAAR ond yn berthnasol i dreth sydd wedi'i datganoli;

4. Pwrpas GAAR Cymru yw galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i wrthweithio mantais drethiannol sy'n deillio o drefniant artiffisial i osgoi trethi. Yn ôl diffiniad Adran 81D, "treth" yn y cyd-destun hwn yw "unrhyw dreth ddatganoledig" (h.y. treth gwarediadau tirlenwi a'r dreth trafodiadau tir)¹.
5. Felly, er mwyn gwrthweithio mantais drethiannol o dan y GAAR, rhaid i'r rhwymedigaeth i dalu treth ddatganoledig fod wedi'i gostwng neu wedi'i hosgoi mewn rhyw fodd. Lle bydd rhwymedigaeth i dalu treth sydd heb ei datganoli wedi'i gostwng neu wedi'i hosgoi mewn rhyw fodd, ni fydd GAAR Cymru yn berthnasol oherwydd ni fydd rhywun wedi osgoi talu treth ddatganoledig. Yn yr achosion hyn, gwaith Cyllid a Thollau EM a Senedd y Deyrnas Unedig fydd penderfynu a ddylid gwrthweithio'r fantais drethiannol annatganoledig honno mewn rhyw fodd.
6. Gellir gwrthyferbynnu hyn â'r ffordd yr ymdrinnir â'r TAAR rhyddhad yn adran 31 o'r Bil. Yn ôl diffiniad isadran (3) gall "treth" gynnwys rhai trethi sydd heb eu datganoli. Ym mhob achos lle y rhoddir y TAAR rhyddhad ar waith, bydd y rhwymedigaeth i dalu treth ddatganoledig wedi'i gostwng yn sgil hawlio'r rhyddhad, felly bydd hynny'n golygu bod mantais dreth ddatganoledig wedi bod. Mae'r rheol yn adran 31 yn sicrhau na fydd rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir ar gael os bydd y trefniant sy'n arwain at y rhyddhad yn ffurfio rhan o drefniant ehangach, ac mai prif ddiben y trefniant hwnnw

¹Y Cynulliad yn y pen draw fydd yn penderfynu ynghylch cymhwyso GAAR Cymru i drethi a ddatganolir yn y dyfodol wrth basio deddfwriaeth a fydd yn rhoi'r trethi datganoledig hynny ar waith.

fyddai osgoi treth annatganoledig, er bod hawlio'r rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir, ac edrych arno ar ei ben ei hun, yn ddilys.

7. Mae hyn yn golygu nad oes modd hawlio rhyddhad rhag y Dreth Trafodiadau Tir os bydd y trafodiad yn rhan o drefniadau lle mai osgoi treth annatganoledig yw'r prif ddiben.²
8. Enghraifft o le y gallai'r sefyllfa hon godi yw mewn achos lle bydd cwmni'n gwneud dau drafodiad tir gyda chwmmi arall yn y grŵp - un yn Lloegr, un arall yng Nghymru, ac mai prif ddiben y trafodiad hwnnw yw osgoi treth gorfforaethol. Ni fyddai'r trafodiad tir yn 'Lloegr' yn gymwys ar gyfer rhyddhad grŵp oherwydd bod TAAR Treth Dir y Dreth Stamp yn dweud na cheir hawlio'r rhyddhad grŵp am fod y trafodiad yn rhan o drefniadau i osgoi treth (sydd, yn ôl y diffiniad, yn cynnwys treth gorfforaethol). Ond yn niffyg diffiniad ehangach o "dreth" yng nghyswllt y TAAR rhyddhad, gellid hawlio rhyddhad grŵp rhag y Dreth Trafodiadau Tir gyda golwg ar y trafodiad tir yng Nghymru, gan dybio nad oedd y trafodiad tir hwnnw, ar ei ben ei hun, yn groes i'r TAAR.³
9. Nid polisi Llywodraeth Cymru yw caniatáu i bobl ddefnyddio deddfwriaeth trethiant ddatganoledig mewn modd sy'n hwyluso osgoi trethi o unrhyw fath, ni waeth ai Awdurdod Cyllid Cymru sy'n casglu'r trethi hynny neu beidio. Nid yw'n bolisi gan Lywodraeth Cymru ychwaith bod datganoli trethi'n gwanhau system drethi'r Deyrnas Unedig drwyddi draw, system y mae'r trethi datganoledig hynny'n rhan ohoni.

Pa drefniadau sy'n dod o dan y GAAR?

10. Mae'r GAAR yn rhoi pŵer i Awdurdod Cyllid Cymru wrthweithio "mantais drethiannol" **sy'n deillio o "drefniant artiffisial i osgoi trethi". Mae tair elfen hyn ("mantais drethiannol", "artiffisial" a "threfniadau i osgoi trethi") wedi'u diffinio ar wahân yn y Bil.**

Ystyr "mantais drethiannol"

11. Yn y GAAR, dim ond un o'r pethau a restrir yn adran 81D y gall "mantais drethiannol" ei olygu. Ond, mae rheolau'r Deyrnas Unedig a'r Alban yn diffinio "mantais drethiannol" drwy gyfeirio at restr anghyflawn⁴ o bethau.
12. Rydym wedi dewis rhoi rhestr gyflawn er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd i drethdalwyr ac egluro mai dim ond y pethau hynny sydd wedi'u rhestru a fydd yn dod o dan y GAAR.

Ystyr "trefniadau i osgoi trethi"

13. Mae Adran 81B(1) yn dweud bod trefniant yn "drefniant i osgoi trethi" os "*cael mantais drethiannol ar gyfer unrhyw berson yw'r prif ddiben, neu un o'r prif ddibenion, pam y mae trethdalwr yn ymrwymo i'r trefniant*"

² Mae hyn yn gyson â nifer o TAARs Treth Dir y Dreth Stamp sy'n cael eu disodli gan y TAAR rhyddhad. Gweler, er enghraifft, baragraff 8(5B) o Atodlen 7 FA 2003, sy'n rhestru nifer o drethi'r Deyrnas Unedig.

³ Paragraff 2(4A) o Atodlen 7 o Ddeddf Cyllid 2003 ("FA 2003")

⁴ Adran 208 FA 2013 ac adran 65 RSTPA 2014.

14. Mae'r prawf cyffredinol hwn yn weddol gyson â'r GAARs cyfatebol yn y Deyrnas Unedig a'r Alban sydd yn adran 207 (1) o Ddeddf Cyllid 2013 ("FA 2013"), ac adran 63(1) o Ddeddf Pwerau Trethi Cyllid yr Alban ("RSTPA"), ac eithrio bod adran 81B yn hepgor y gofyniad i roi sylw i'r holl amgylchiadau. Ein casgliad ni oedd nad oedd angen hyn: wrth benderfynu a yw trefniant yn dod o dan y rheol, rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru roi sylw bob tro i'r amgylchiadau perthnasol, fel mater o gyfraith gyhoeddus.

Prawf prif ddiben

15. Mae'r diffiniad o "drefniant i osgoi trethi" yn cynnwys achosion lle mai "prif ddiben neu un o brif ddibenion" gwneud y trefniant yw cael mantais drethiannol.
16. Bydd ymarferwyr a'r farnwriaeth yn gyfarwydd â'r math hwn o brawf "prif ddiben" gan ei fod yn bodoli eisoes yn GAAR y Deyrnas Unedig a GAAR yr Alban a'i fod wedi hen fwrw gwreiddiau mewn nifer fawr o TAARs. Mae wedi cael ei ystyried sawl gwaith wrth i'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd benderfynu ynghylch achosion gan awgrymu bod trothwy uchel yn cael ei bennu wrth benderfynu a yw'r prawf "prif ddiben" yn cael ei fodloni⁵.
17. At hynny, dylid nodi nad yw'r prawf "prif ddiben" yn gweithio ar ei ben ei hun. Bydd y GAAR yn gweithredu fel prawf dau gam: mae'r gofyniad ychwanegol ei bod yn rhaid i'r trefniant fod yn "artiffisial" yn gweithio fel 'hidlydd' sy'n cyfyngu ar y rheol i gynnwys dim ond y trefniadau hynny lle bydd sicrhau mantais drethiannol yn un o'r prif ddibenion, a lle na fydd gwneud y trefniant neu ymrwymo iddo'n weithred resymol yng nghyswllt y ddeddfwriaeth berthnasol. Gyda'i gilydd, mae'r prawf dau gam hwn yn sicrhau mai dim ond y trefniadau "artiffisial" hynny sydd ag osgoi treth yn brif ddiben iddynt sy'n dod o dan y GAAR.

Trefniant

18. Oherwydd y bydd y GAAR yn berthnasol i dreth gwarediadau tirlenwi, rydym wedi dewis diffiniad o "drefniant" sydd fymryn yn ehangach o'i gymharu â GAAR y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn sicrhau bod trefniadau osgoi sy'n cynnwys treth gwarediadau tirlenwi (a allai gynnwys "cynllun" penodol neu unrhyw "weithred" neu "weithrediad" gan unigolyn mewn modd penodol) yn dod o dan y rheol, ac mae hyn yn gyson â GAAR yr Alban⁶.

Ystyr artiffisial

19. Bydd trefniant osgoi trethi'n drefniant artiffisial os na fydd ymrwymo iddo neu ei gyflawni yn weithred resymol.

⁵ Mae hyn yn cynnwys , *Brebner* [1967] 2 W.L.R. 1001; *Commissioners of Inland Revenue v Trustees of the Sema Group Pension Scheme* [2002] EWHC 94 (Ch) a *Versteegh Ltd and others v Commissioners for Revenue and Customs* [2013] UKFTT 642 (TC). Mae'r dyfyniadau perthnasol i'w gweld yn Atodiad 1 i'r llythyri hwn.

⁶ Adran 63(2) RSTPA 2014.

20. Mae Adran 81C(2) yn nodi dau o'r ffactorau y gellid eu hystyried wrth benderfynu a yw trefniant yn "artiffisial". Mae'n bwysig nodi y gall fod ffactorau perthnasol eraill (neu y gall fod rhinwedd hyd yn oed mewn anwybyddu'r ffactorau hynny a restrir yn isadran (2)), ond bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r trefniant.

A oes unrhyw "sylwedd economaidd neu fasnachol dilys" i'r trefniant"?

21. Mae ystyried a oes "unrhyw sylwedd economaidd neu fasnachol dilys" i'r trefniant yn *galluogi ACC (ac felly'r tribiwnlys) i ystyried y rhesymau sydd y tu ôl i strwythur y trafodiad. Mae nifer fawr o'r TAARs ar y llyfr statud eisoes yn gweithredu drwy gyfeirio at "sylwedd masnachol dilys"⁷ y trefniant neu bwrpas masnachol bona fide⁸ a bydd ymarferwyr a'r farnwriaeth yn gyfarwydd ag asesu a oes "sylwedd masnachol" i drefniant" neu beidio.*
22. Cwestiwn o ffaith fydd a oes unrhyw sylwedd "economaidd" neu "fasnachol" i drefniant, a gwaith Awdurdod Cyllid Cymru (neu os bydd apêl, y tribiwnlys) fydd penderfynu a oedd unrhyw sylwedd economaidd neu fasnachol yn sail i'r trefniant, ac i'r strwythur a grëwyd.
23. Bydd sylwedd masnachol i'r trefniant os bydd rhyw ymddygiad busnes rhesymol y tu ôl iddo. Er enghraifft, mewn achos lle y bydd prynwr tir yn gallu prynu'r tir hwnnw'n uniongyrchol drwy drafodiad syml A-B, bydd y trethdalwr yn sicrhau ei nod economaidd a masnachol (sef perchnogi'r tir) ac ni fydd wedi gwneud unrhyw drefniadau a allai gael eu hystyried yn artiffisial neu'n ddiffygiol o ran sylwedd economaidd neu fasnachol dilys. Serch hynny, pan fydd y prynwr yn caffael y tir mewn ffordd fwy astrus a chostus, mae'n bosibl na fydd sylwedd masnachol dilys i'r trefniant. Y rheswm dros hyn yw oherwydd, oni fyddai mantais drethiannol, mae'n rhesymol dadlau na fyddai'r prynwr wedi ysgwyddo'r gost ychwanegol honno, ac ystyried amcanion economaidd a masnachol caffael y tir.
24. Yn groes i hynny, os bydd trethdalwr yn wynebu dau opsiwn posibl wrth benderfynu sut i brynu'r tir, a lle bydd y ddau opsiwn yn sicrhau'r un canlyniadau economaidd a masnachol, ond bod un yn arwain at rwymedigaeth dreth is heb fod angen gwneud dim trefniadau ychwanegol, yna, mae'n rhesymol bod y trethdalwr yn dewis yr opsiwn lle na fydd gofyn talu cymaint o dreth.
25. Rydym wedi dewis cynnwys ffactor ychwanegol sylwedd "economaidd" er mwyn gwarchod rhag achosion lle bydd natur y trafodiad yn golygu na fydd dim sylwedd "masnachol" y tu ôl i'r trafodiad. Er enghraifft, efallai mai cymhelliant elusen wrth gaffael llain o dir o bwysigrwydd hanesyddol fydd bod yr elusen honno'n awyddus i ddatblygu ei hamcanion elusennol a gwarchod y tir dan sylw. At hynny, mae'n debygol mai sylwedd economaidd yn hytrach na sylwedd masnachol fydd i rai o'r rhyddhadau sy'n berthnasol i ryddhad yng nghyswllt trafodion penodol ar gyfer tai cymdeithasol (Atodlen 14).

⁷ Adrannau 455 a 446A Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 a rheoliad 4(2) o Ymddiriedolaethau Buddsoddi mewn Eiddo Tiro (Trefniannau Rhagnodedig) 2009 (S.I 2009/3315)

⁸ Er enghraifft, paragraffau 2(4A) ac 8(5B). Atodlen 7 o Ddeddf Cyllid 2003 ac adran 734 o Ddeddf Treth Gofforaeth 2010, a dyfarniad y Goruchaf Lys *UBS AG v Commissioners for Revenue and Customs* ([2016] UKSC 13)

26. Nid yw rhoi sylw i sylwedd "economaidd" y trafodion yn nodwedd newydd i ddeddfwriaeth osgoi trethi. Yn ogystal â GAAR yr Alban (*sy'n golygu bod gofyn ystyried "sylwedd economaidd a masnachol" y trefniant*) a GAAR y Deyrnas Unedig (*sy'n rhestru rhai enghreifftiau o drefniannau a all fod yn camddefnyddio'r drefn i gynnwys trafodion sy'n sicrhau canlyniadau treth sy'n wahanol i ganlyniad economaidd y trefniant*), mae gofyn i reolau targededig yn erbyn osgoi trethi mewn deddfwriaeth treth gorfforaethol ystyried "diben economaidd" trefniadau penodol.

Pam "dilys" yn hytrach na "bona fide"?

27. Credwn fod "dilys" yn fwy priodol na "bona fide". Fel mater o bolisi drafftio, mae'n well gan Lywodraeth Cymru osgoi defnyddio ymadroddion Lladin lle bynnag y bo modd, ac eithrio lle bydd ymadrodd Lladin yn cyfleu rhywbeth mwy nag y gellid ei gyfleu yn Gymraeg. At ddibenion y GAAR, ni chredwn fod "bona fide" yn cyfleu dim mwy nag y mae angen inni ei gyfleu drwy ddefnyddio'r gair "dilys". Bwriedir i'r GAAR gynnwys trefniadau sydd wedi'u creu i gynnwys nodweddion nad oes iddynt ddiben masnachol neu economaidd er mwyn sicrhau mantais drethiannol.

Arferion sy'n bodoli'n gyffredinol

28. Bwriedir i Adran 81C(3) fod yn 'darian' i drethdalwyr rhag unrhyw hawliad bod trefniant yn artiffisial mewn achosion lle bydd y trefniant hwnnw'n gyson â'r arferion sy'n bodoli'n gyffredinol a bod Awdurdod Cyllid Cymru wedi derbyn yr arfer hwnnw. Mae hyn wedi'i gynnwys yn GAAR Cymru er mwyn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i drethdalwyr: ni fyddai'n iawn i Awdurdod Cyllid Cymru geisio adennill treth sydd wedi'i hosgoi os yw'r Awdurdod wedi awgrymu yn y gorffennol bod y trefniant hwnnw'n dderbyniol.

29. Er bod senario'r arferion a ddilynir yn gyffredinol a ddisgrifir yn y ddarpariaeth hon yn cael ei roi'n enghraifft o'r hyn na fyddai efallai yn cael ei ystyried yn drefniant "camddefnyddiol" neu "artiffisial" yn GAAR y Deyrnas Unedig a GAAR yr Alban, mae adran 81(C) yn gwahardd yn llwyr drefniant yn cael ei gategoreiddio'n "artiffisial" yng nghyd-destun GAAR Cymru ac felly mae'n cynnig gwarchodaeth sylweddol i drethdalwyr o'i gymharu â GAAR y Deyrnas Unedig.

Pam "artiffisial" yn hytrach na "chamddefnyddiol"?

30. Gan nad oes dim cyfraith achos yn berthnasol i GAARs y Deyrnas Unedig a'r Alban *oherwydd nad yw'r rhain wedi'u rhoi ar waith eto gan Cyllid a Thollau EM a Chyllid yr Alban*), credwn fod "artiffisial" a "chamddefnyddiol" yn labeli sy'n disgrifio prawf statudol mwy manwl sydd yn y gwahanol ddarpariaethau, a bod y profion hynny'n weddol debyg i'w gilydd.

31. Rydym wedi dewis defnyddio'r gair "artiffisial" am ein prawf ni am ein bod yn meddwl ei fod yn disgrifio'n fwy manwl beth yw craidd y prawf a'r bwriad bod y GAAR yn cynnwys y trefniadau hynny sydd wedi'u dyfeisio mewn ffordd artiffisial neu annormal er mwyn sicrhau mantais drethiannol. Er bod craidd y profion yn debyg, mae defnyddio

camddefnyddiol ("abusive") yn GAAR y Deyrnas Unedig yn awgrymu y bwriedir iddo gynnwys ystod gulach o drefniadau sy'n eithriadol o astrus neu'n astrus iawn.

32. Un peth pwysig yw y bydd ymarferwyr a'r farnwriaeth yn gyfarwydd â phrofion "artiffisial" o'r fath yng nghyd-destun osgoi trethi. Mae trywydd cyfreitheg resymol wrthi'n datblygu ynglŷn ag ystyr "artiffisial" a hwnnw'n deillio o egwyddor sefydledig *Ramsay* a oedd yn dehongli deddfwriaeth drethiant mewn ffordd fwriadus er mwyn osgoi rhoi cynllun ar waith a fyddai'n artiffisial ac yn ariannol aneffeithiol.
33. Yn groes i hynny, mae'r trywydd cyfreitheg ynglŷn ag ystyr trefniant camddefnyddiol ("abusive") i osgoi treth yn eithriadol o gyfyng, ac yn wir, mewn ambell achos, mae'r termau "artiffisial" ac "chamddefnyddiol" wedi cael eu defnyddio fel petaent yn gyfystyr â'i gilydd.⁹
34. Byddai disgrifio'r prawf yn adran 81C fel un camddefnyddiol ("abusive") felly o bosibl yn ychwanegu meysydd dryswch gwahanol gan fod y gyfraith achos, fel y cyfeiriwyd ati uchod, wedi ystyried trefniadau trethiant artiffisial yn helaeth.

A yw GAAR Cymru yn ehangach na GAAR y Deyrnas Unedig?

35. Ni chredwn fod GAAR Cymru yn ei hanfod yn ehangach na GAAR y Deyrnas Unedig. Ac eithrio'u bod yn defnyddio terminoleg wahanol - "artiffisial" a "chamddefnyddiol" - y gwahaniaeth allweddol rhwng GAARs Cymru a'r Alban o'u cymharu â GAAR y Deyrnas Unedig yw'r prawf "rhesymoldeb dwbl". Penderfyniad Llywodraeth yr Alban oedd peidio â mabwysiadu'r rheol hon ac rydym ninnau wedi gwneud yr un peth gan nad oeddem yn meddwl bod ei angen. Ac yntau'n awdurdod cyhoeddus, bydd Awdurdod Cyllid Cymru wedi'i gyfrwymo gan egwyddorion cyfraith gyhoeddus arferol, gan gynnwys y gofyniad i weithredu'n rhesymol. Ni chredwn fod angen, felly, inni gynnwys gwaharddiad statudol ar Awdurdod Cyllid Cymru rhag gwrthweithio trefniant, os bydd yn *meddwl yn afresymol* bod y trefniant yn dod o dan y GAAR.
36. Mewn ffyrdd pwysig, bydd GAAR Cymru yn cynnig mwy o warchodaeth i drethdalwyr (gweler *yr arferion sy'n bodoli'n gyffredinol ac ystyr mantais drethiannol*).

Sut y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gwrthweithio mantais?

37. Mae GAARs y Deyrnas Unedig a'r Alban yn rhoi ystod eang o bwerau i Cyllid a Thollau EM a Chyllid yr Alban er mwyn iddynt allu adennill trethi yr osgowyd eu talu¹⁰. Mae'r rhain yn cynnwys adennill y trethi yr osgowyd eu talu drwy wneud asesiad pellach, diwygio ffurflen dreth y trethdalwr, neu ba ddull bynnag arall yr ystyrir ei fod yn briodol.
38. Yn groes i hynny, dim ond drwy'r ddau ddull a ddisgrifir yn adran 81E(3) y caiff Awdurdod Cyllid Cymru adennill y trethi yr osgowyd eu talu - drwy ddiwygio ffurflen dreth y trethdalwr neu drwy asesiad Awdurdod Cyllid Cymru.

⁹ Gweler *Trustees of the Morrison 2002 Maintenance Trust and others v Commissioners for Revenue and Customs* [2016] UKFTT 0250 (TC) paragraff 128.

¹⁰ Gweler adran 66(4) RSTPA 2014 ac adran 209(6) FA 2013.

Atodiad 1

1. Yn *Inland Revenue Commissions v Brebner*¹¹, ystyriodd y Llys Apêl ai mantais drethiannol oedd un o brif amcanion gwneud trefniant.

*“... when the question of carrying out a genuine commercial transaction, as this was, is reviewed, the fact that there are two ways of carrying it out - one by paying the maximum amount of tax, the other by paying no, or much less, tax - it would be quite wrong, as a necessary consequence, to draw the inference that, in adopting the latter course, one of the main objects is, for the purposes of the section, avoidance of tax. No commercial man in his senses is going to carry out a commercial transaction except upon the footing of paying the smallest amount of tax that he can. **The question whether in fact one of the main objects was to avoid tax is one for the Special Commissioners to decide upon a consideration of all the relevant evidence before them and the proper inferences to be drawn from that evidence.**” [yn t. 718-9]*

2. Yn *Commissioners of Inland Revenue v Trustees of the Sema Group Pension Scheme*¹², gofynnwyd i'r Uchel Lys ystyried ai un o brif amcanion ymrwymo i'r trefniant oedd sicrhau mantais drethiannol:

*“The tax advantage may not be a relevant factor in the decision to purchase or sell or in the decision to purchase or sell at a particular price. Obviously **if the tax advantage is mere “icing on the cake” it will not constitute a main object.** Nor will it necessarily do so **merely because it is a feature of the transaction or a relevant factor in the decision to buy or sell.** The statutory criterion is that the tax advantage **shall be more than relevant or indeed an object; it must be a main object.**” [ym mhara. 53]*

3. Yn fwy diweddar, yn *Versteegh Ltd and others v Commissioners for Revenue and Customs*¹³ gofynnwyd i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf ai mantais drethiannol oedd prif ddiben neu un o brif ddibenion y trethdalwr wrth ymrwymo i'r trefniant:

*“In the same way that the mere presence of a commercial purpose cannot rule out the existence of tax avoidance as being a main purposes, **the mere existence of a tax advantage, known to the taxpayer, does not on its own render the obtaining of that advantage a main purpose.** All the authorities point to the question being one of degree and significance to the taxpayer, and that the question is one of fact for the tribunal, having regard to all the circumstances.” [ym mhara. 158]*

4. Yn *UBS AG v Commissioners for Revenue and Customs*¹⁴, bu'r Goruchaf Lys yn ystyried a ddylai ddehongli darpariaethau mewn deddfwriaeth treth incwm ar fonysau di-dreth a roddwyd gan wahanol fanciau yn 2004 yn y fath fodd ac i'w hystyried yn fodd o osgoi treth incwm:

*“There is nothing in the background to suggest that Parliament intended that [the provisions allowing for the award of tax-free bonuses] should also apply to transactions having no connection to the real world of business, **where a restrictive condition was deliberately contrived with no business or commercial purpose but solely in order to take advantage of the exemption.**” [para 78]*

¹¹ [1967] 2 W.L.R. 1001

¹² [2002] EWHC 94 (Ch). Cymeradwywyd y dyfyniad wedyn gan y Llys Apêl yn [2002] EWCA Civ. 1857 ym mharagraff 119.

¹³ [2013] UKFTT 642 (TC)

¹⁴ [2016] UKSC 13